

Sul Addysg

Darlleniad: 1 Corinthiaid 2: 1-16

Trwy'r Ysbryd Glân sy'n plymio i ddyfnderoedd pob peth, hyd yn oed ddyfnderoedd Duw, datguddiwyd i ni'r cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu.

Diolch i ti, O! Dduw ein Tad, am dy ddoethineb anhunanol yn anfon dy Ysbryd Glân i ddwyn trefn o anhrefn, goleuni o dywyllwch, bywyd o farwolaeth. Molwn dy enw am i'r Ysbryd doeth hwn gyiniwair drwy'r byd ar hyd yr oesoedd, gan gynnal popeth byw trwy rym dy Air di. Bendigwn dy enw ar i'r Gair hwn ddod yn gnawd ac amlygu doethineb yr Ysbryd yng Nghrist Iesu. Yn ei ymwneud ef â'i gyd-ddynion, adlewyrchwyd doethineb y berthynas sy'n bodoli rhwng y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Ac yntau'n ddeuddeng mlwydd oed, gwyddai Iesu ei fod yng ngŵydd ei Dad nefol pan eisteddai yng nghanol yr athrawon. Holai hwynt yn ogystal â gwranddo arnynt. Diolchwn i ti, O! Dduw, am yr awydd a'r rhyddid i holi ac ymchwilio sy'n rhan o'n profiad ninnau hyd heddiw. Wrth inni ymhyfrydu yn dy fyd di, gad inni ddysgu rhyfeddu at dy greadigaeth wyrthiol di. Ym mhob ymchwil, agor ein llygaid i weld ôl dy law di; ac ym mhob darganfod, pâr inni arddel dy ewyllys adeiladol di. Maddau i ni am droi addysg ac ymchwil yn foddion difa a dinistrio mor aml. Diolch i ti am bob darganfyddiad a fu'n gyfrwng bendith i'th bobl trwy hyrwyddo iechyd, cyfathrebu, a pherthynas dda rhwng pobloedd a chenhedloedd.

Gweddiwn heddiw dros bawb sy'n ymwneud ag addysg. Fel y cafodd Iesu ei roi ar ben ei ffordd yn ei gartref yn Nasareth, gweddiwn am i gartrefi'n gwlad a'n byd fod yn aelwydydd i hyfforddi cenhedlaeth arall a fydd yn ymhyfrydu yn dy oleuni di ac yn gweld gwerth yn y newyddion da am dy gariad di-ben-draw di. Gweddiwn dros athrawon a disgyblion ein hysgolion lleol a thros

ddarlithwyr a myfyrwyr pob coleg a phrifysgol. Agor eu llygaid i weld ehangder y weledigaeth sy'n rychwantu bywyd cyfan ym meddwl a buchedd Iesu Grist. Gad iddynt weld nad rhoi mantais iddynt gystadlu ac ymelwa ar draul eraill mo addysg ond cyfle iddynt ddysgu byw ynghyd fel aelodau o un gymdeithas ac un byd.

Gweddïwn am i ni ar hyd ein hoes amlygu'r agwedd meddwl honno sy'n eiddo i ni yng Nghrist Iesu. Fe'i darostyngodd ef ei hun gan fod yn ufudd hyd angau - ie, angau ar groes. Rho nod y Groes ar ein haddysg, tor grib ein balchder a galluoga ni i ddefnyddio addysg i glywed cri y gwan, i synhwyro poen y trallodus, i godi baich y gorthrymedig, i sicrhau rhyddid i'r caeth, cyfiawnder i'r cystuddiedig, a heddwch i'th holl bobl di. Gweddïwn am i'r unig ddoeth Dduw, trwy ei Ysbryd Glân, roi inni feddwl y Crist croeshoeliedig ac atgyfodedig ynghanol twyll a hunanoldeb y byd. Yng ngoleuni dy gymdeithas berffaith di, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, y gwelwn ninnau wir oleuni. Amen.

Saunders Davies